



**Cambrian  
Training**  
**Hyfforddiant  
Cambrian**

Engage. Inspire. Succeed.  
Ymgysylltu. Ysbrydoli. Llwyddo.

***Cynllun Iaith***  
***Gymraeg***  
***Cwmni Hyfforddiant***  
***Cambrian***

***Paratowyd yn unol â***  
***Deddf yr Iaith Gymraeg 1993***

## **1. DATGANIAD AGORIADOL**

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn disodli'r cynllun cyntaf a gafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 27 Ionawr 2011. Cafodd y cynllun hwn ei ddiwygio yn unol ag adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Cafodd ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 13 Mai 2019.

Mae Cwmni Hyfforddiant Cambrian wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut bydd y Cwmni'n gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cydnabod y gall unigolion fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith ac mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw eu galluogi i ddefnyddio'u dewis iaith, ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Felly bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ymdrin ag ef ac yn cymhwyso'r egwyddor hon i ddisgwyliadau ar y cyrff y mae'n delio â nhw.

## **2. CYFLWYNIAD I GWMNI HYFFORDDIANT CAMBRIAN**

Sefydlwyd Cwmni Hyfforddiant Cambrian fel is-gwmni dan berchnogaeth Iwyr Twristiaeth Canolbarth Cymru ym 1995. Cylch gwaith y Cwmni yw darparu hyfforddiant a dysgu seiliedig ar waith i unigolion trwy gontractau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae Hyfforddiant Cambrian yn darparu yn y sectorau canlynol:

Gweithgynhyrchu - gweithgynhyrchu bwyd
Lletygarwch - lletygarwch
Manwerthu a gwasanaethau i gwsmeriaid
Rheoli a phroffesiynol - rheoli
Gweinyddu busnes (ac eithrio gwasanaethau ariannol - bancio, gwasanaethau ariannol - yswiriant, darparu cyngor ariannol, cyfrifyddu, cynorthwyyr addysgu)
Gweithgynhyrchu - arall
Amaethyddiaeth - cadwraeth amgylcheddol, rheoli adnoddau'n gynaliadwy
Gweinyddu busnes - gwasanaethau ariannol - bancio, gwasanaethau ariannol - yswiriant, darparu cyngor ariannol, cyfrifyddu
Peirianeg - arall
Gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus - addysg a gofal blynyddoedd cynnar

Gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus - iechyd a gofal cymdeithasol
Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Gwaith Chwarae
Amaethyddiaeth (ac eithrio cadwraeth amgylcheddol, rheoli adnoddau'n gynaliadwy)

Yn gynnar yn 2002, sefydlodd Cwmni Hyfforddiant Cambrian Ganolfan Ragoriaeth i gynyddu lefelau sgiliau ymhlith pen gogyddion a chogyddion yn y rhanbarth, ac i hybu paratoi a gwerthu cynnyrch rhanbarthol. Mae'r ganolfan yn cynnwys cegin arddangos, cyfleusterau darlithio ac ardal paratoi cig.

Mae gan y Cwmni chwe swyddfa weithredol mewn lleoliadau strategol yng Nghymru. Mae'r swyddfeydd hyn yn y Trallwng lle ceir dwy swyddfa, Caergybi, Bae Colwyn, Llanfair-ym-Muallt a Llanelli. Mae'r Cwmni'n cyflogi tua 42 o weithwyr ledled Cymru, ac mae 22% o'r rhain yn siarad Cymraeg. Mae'r gymhareb canran hon o staff sy'n siarad Cymraeg yn uwch ar hyn o bryd na'r ganran gyffredinol o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru. Gellir gweld copi o'r siart gyfundrefnol bresennol yn Atodiad 1. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad sy'n dangos niferoedd a chanrannau'r staff sy'n siarad Cymraeg yn y gwahanol rolau yn y Cwmni.

Rolau Swyddi	Cyfanswm	Dwyieithog	% Dwyieithog
Cyfarwyddwyr	3	1	33.33%
Rheolwyr	8	1	00.00%
Tiwtoriaid/Swyddogion Hyfforddi	33	7	21.21%
Staff Cymorth a Gweinyddu	24	7	29.00%
<b>Cyfanswm</b>	<b>69</b>	<b>15</b>	

Cenhadaeth y Cwmni yw darparu hyfforddiant o safon, cefnogi pobl a gwella rhagolygon. A'n gweledigaeth yw arwain trwy ddysgu a datblygu i ddyfodol cynaliadwy i bawb. Mae fersiwn Cymraeg a Saesneg o Ddatganiad Cenhadaeth y Cwmni wedi'i gynnwys â'r ddogfen.

**Nod y Cwmni yw cytuno ar flaenoriaethau a thargedau â'i ddysgwyr a'i bartneriaid i fynd i'r afael â phedwar nod allweddol:**

- Lleihau gagendor sgiliau a phrinderau
- Gwella cynhyrchiant, busnes a pherfformiad gwasanaeth cyhoeddus
- Cynyddu cyfleoedd i hybu sgiliau a chynhyrchiant pawb yn y rhanbarth, gan gynnwys gweithredu ar gyfleoedd cyfartal

- Gwella'r ddarpariaeth addysg, gan gynnwys prentisiaethau, safonau galwedigaethol cenedlaethol ac addysg uwch

### **3. CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU**

#### **3.1 Polisiau a Mentrau Newydd**

Wrth lunio polisiau a mentrau newydd, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn:

- **asesu** effaith ieithyddol unrhyw bolisiau a mentrau newydd wrth eu llunio a **sicrhau** eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith Gymraeg.
- **sicrhau** y bydd mesurau'r Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisiau a mentrau newydd ar waith
- sicrhau nad yw polisiau neu fentrau newydd yn tanseilio Cynllun Iaith Cwmni Hyfforddiant Cambrian neu Gynllun Iaith darparwyr eraill
- hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pa bryd bynnag y bydd hynny'n bosib a symud y sefydliad yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn ar bob cyfle
- **ymgyngori** â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn â chynigion a fydd yn effeithio ar y Cynllun, neu'n effeithio ar Gynlluniau unrhyw gyrrff cyhoeddus eraill. Ni chaiff y Cynllun ei newid heb gytundeb y Comisiynydd.
- **sicrhau** nid yn unig bod y rheiny sy'n ymwneud â llunio polisiau yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau Cwmni Hyfforddiant Cambrian o dan Ddeddf Iaith Gymraeg 1993, ond bod holl staff perthnasol ac angenrheidiol y Cwmni hefyd yn ymwybodol o'r Cynllun. Bydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn cyflawni hyn, a fydd yn codi ymwybyddiaeth o sensitifrwydd iaith trwy:
  - i. Drefnu cyfarfodydd un-i-un â'r holl Gyfarwyddwyr/Rheolwyr er mwyn esbonio sut bydd y Cynllun yn effeithio ar eu gwaith
  - ii. Cyhoeddi i'r holl staff yn y cyfarfodydd Tîm, Rheolwyr a Chyfarwyddwyr bod y Cynllun i'w weithredu
  - iii. Bydd disgwyl i bawb (Penaethiaid Adran/rheolwyr) briffio'u staff ar oblygiadau'r Cynllun i'w hunain ac, yn bwysicaf, i Gwmni Hyfforddiant Cambrian
  - iv. Diweddarau ac adolygu'r Cynllun yn flynyddol â Gweithgor yr Iaith Gymraeg er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn sydd ei angen a monitro effeithiolrwydd gweithredu'r Cynllun
  - v. Cynnwys cyflwyniad i'r Cynllun Iaith Gymraeg fel rhan o gwrs ymsefydlu ar gyfer pob aelod o staff newydd a gaiff ei benodi i Gwmni Hyfforddiant

Cambrian. Bydd pob aelod o staff newydd sy'n cychwyn yn cael ei gyfeirio at fewnrwyd CHC lle mae'r cynllun yn cael ei gadw, ynghyd ag adduned sy'n symleiddio ein bwriad a'n cyfeiriad.

- vi. Llunio cylchlythyr copi caled ac electronig o gynnwys y Cynllun a'i ddsbarthu i'r holl staff
- vii. Cyhoeddi'r Cynllun ar wefan a mewnrwyd y Cwmni.

### **3.2 Safonau Ansawdd**

3.2.1. Bydd gwasanaethau a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg lawn cystal eu safon a'u prydlondeb â'i gilydd. Wrth fynd ati i asesu a mesur safonau ac effeithiolrwyd y gwasanaethau Cymraeg, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn defnyddio'r un "dangosyddion perfformiad" ag a ddefnyddir ar gyfer ei wasanaethau Saesneg.

3.2.2 Caiff y safonau hyn a'u gweithrediad eu monitro fel yr amlinellir yn adran 3.1.1.

3.2.3 Bydd gweithredu'r Cynllun ac ymrwymiad Cwmni Hyfforddiant Cambrian i gydraddoldeb ieithyddol yn cael ei gyhoeddi yn y cynllun corfforaethol, deunydd marchnata, cylchlythyrau a gwefan y Cwmni.

3.2.4 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn sicrhau cysondeb safon y gwasanaethau yn Gymraeg a ddarperir gan y sefydliad mewn gwahanol leoliadau.

### **3.3 Darparu Gwasanaethau Dwyieithog**

3.3.1 Cred Cwmni Hyfforddiant Cambrian mai teg a rhesymol yw i'r cyhoedd ddisgwyl derbyn gwasanaethau ganddo yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl dewis yr unigolyn. Er nad yw'n gallu cynnig y dewis teg a rhesymol hwn bob amser i'r cyhoedd ar hyn o bryd, mae Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn ymrwymo i roi trefniadau ar waith a fydd yn ei alluogi i ddarparu pob gwasanaeth i'r cyhoedd yr un mor effeithiol, hwylus a chyflawn yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn y pen draw.

3.3.2 I'r perwyl hwn, bydd Cwmni Hyfforddiant Cymru yn cynnal archwiliad blynyddol o'r ffordd y mae pob un o'i wasanaethau i'r cyhoedd yn cael eu trefnu er mwyn penderfynu sut orau y gellir symud ymlaen tuag at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb. Rhydd flaenoriaeth yn y lle cyntaf i'r angen i sicrhau bod y

swyddogion hynny sy'n cysylltu fwyaf â'r cyhoedd, boed wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, neu drwy ohebiaeth neu gyfryngau eraill, yn gallu gwneud hynny'n ddwyieithog.

## **4. PROFFIL Y CWMNI**

### **4.1 Cefndir**

Cwmni cyfyngedig preifat yw Cwmni Hyfforddiant Cambrian, a sefydlwyd ym 1995. Mae'r Cwmni dan gontract â Llywodraeth Cymru (LIC) ar hyn o bryd i ddarparu rhaglenni dysgu yn y gwaith mewn amrywiaeth eang o feysydd galwedigaethol ledled Cymru.

Mae nodau'r cwmni fel a ganlyn:

- Datblygu, hybu a chyflenwi amrywiaeth eang o opsiynau dysgu dwyieithog sy'n berthnasol i anghenion unigolion, busnesau a chymunedau ac sydd â chysylltiad â blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol a blaenoriaethau ardaloedd, sectorau a galwedigaethau.
- Ehangu nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn dysgu, gan gynyddu'r galw am ddysgu yn y gweithle trwy ddarparu, mewn partneriaeth â darparwyr a rhanddeiliaid eraill, cyfleoedd dysgu gydol oes cynhwysol sy'n ymatebol i anghenion unigolion a busnesau.
- Datblygu diwylliant ansawdd holl gynhwysfawr ar sail systemau rheoli ansawdd cadarn sy'n ymgorffori atebolrwydd a gwella ansawdd a pherfformiad yn barhaus.
- Datblygu Systemau Gwybodaeth Reoli i sicrhau bod data cyfredol, manwl gywir, amserol a dibynadwy ar gael ar unwaith i ddarparu sail ar gyfer penderfyniadau rheoli. Dylid cael tystiolaeth briodol o hyn, a dylai'r systemau fod yn dryloyw i gefnogi hawlio cyllid, a bod yn ddigon eang a manwl i ddiwallu anghenion rhanddeiliaid ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- Parhau i wella'r amgylchedd dysgu a chyfleusterau ar gyfer dysgwyr trwy gaffael adnoddau a'u rhoi ar waith, monitro safleoedd cyflogwyr yn rheolaidd a darparu amodau gweithio diogel a dymunol i staff y cwmni a dysgwyr, sy'n creu awyrgylch ffafriol i ddysgu'n effeithiol.
- Datblygu tîm o bobl uchel eu cymhelliant, hyblyg a phroffesiynol gymwys sydd â phrif flaenoriaeth i annog a helpu dysgwyr i wireddu eu potensial, trwy strwythurau staffio sy'n ymgorffori cynnydd a datblygiad gyrfa staff, y mae arfarnu a hyfforddi'n nodweddion allweddol ohonynt.

- Cynnal uniondeb ac iechyd ariannol trwy weithredu'r Cwmni yn fanwl gywir ac yn onest, o fewn y gyfraith, a chan ystyried cyfrifoldebau corfforaethol cymdeithasol a moesol trwy reoli pob agwedd ar weithrediadau'r cwmni'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ymatebol.

#### **4.2 Polisiau Cysylltiedig**

Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Urddas yn y Gwaith

Polisi a Gweithdrefnau Recriwtio a Dethol

#### **4.3 Cyfrifoldebau**

Mae'r Cwmni wedi sefydlu Gweithgor Cymru sydd ag arweinydd cyfunol o Gyfarwyddwr Cyllid a Gweinyddiaeth a Chyfarwyddwr Ansawdd â'r cyfrifoldebau canlynol:

- Gweithredu, monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y cynllun.
- Gosod targedau ar gyfer defnyddio mwy ar y Gymraeg yn y broses dysgu seiliedig ar waith ac asesu, a sicrhau bod targedau'n cael eu cyrraedd a bod y ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei datblygu o'r naill flwyddyn i'r nesaf.
- Cysylltu â sefydliadau allanol a sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu o safon ar gael i gynorthwyo â datblygu'r cynllun a'i roi ar waith.

Mae Hyrwyddwr Iaith Gymraeg Cwmni Hyfforddiant, ynghyd â chydlynnydd yr iaith Gymraeg, yn gyfrifol am:

- Gynorthwyo'r arweinwyr iaith Gymraeg i fodloni rhwymedigaethau'r cynllun, gan hyrwyddo modd effeithlon a chyson o ddarparu'r cynllun.
- Mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg a dod o hyd i atebion.
- Darparu arweinyddiaeth wrth hybu defnyddio'r Gymraeg yn y cwmni a'r tu hwnt iddo.
- Rhannu ymarferion da, gan annog a chefnogi staff i wella'u sgiliau Cymraeg eu hunain a sgiliau Cymraeg dysgwyr.
- Cyfieithu a, lle bo angen, trefnu cyfieithu trwy asiantaethau proffesiynol.

Mae **Gweithgor** yr Iaith Gymraeg parhaol wedi'i sefydlu a bydd arweinwyr yr Iaith Gymraeg yn ei gadeirio. Bydd aelodau'r gweithgor yn cynnwys Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg y contract, Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg a'r pedwar Mentor. Bydd y Cadeirydd yn cyfethol aelodau ychwanegol i'r Gweithgor yn ôl y galw. Bydd y Gweithgor yn cyfarfod bob chwarter o leiaf i:

- Adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd ymarfer ac adnoddau presennol.
- Nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu, a chynnig atebion.
- Adolygu sgiliau iaith Gymraeg y staff a'r cynnydd y mae staff sy'n dysgu ac yn gwella'u sgiliau iaith Gymraeg yn ei wneud.
- Nodi meysydd â blaenoriaeth a chynnig dyraniad adnoddau a datblygiadau yn y dyfodol.
- Cynorthwyo Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg wrth ddadansoddi a datrys unrhyw gwynion, ac wrth ddarparu adroddiadau bob chwarter i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r Tîm Rheoli, ac adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr.

#### **4.4 Yr Ardal Ddarparu Ddaearyddol – Cefndir Ieithyddol**

**Gogledd Cymru:** Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 30.8% o boblogaeth Gogledd Cymru yn gallu siarad Cymraeg. Mae canran y siaradwyr Cymraeg yn rhan orllewinol yr ardal yn sylweddol uwch na'r rheiny sy'n byw yn nwyrain yr ardal. Er enghraifft, mae canran y siaradwyr Cymraeg sy'n byw yng Ngwynedd a Môn (2011 y cyfrifiad) yn 65.4% a 57.2% yn y drefn honno, o gymharu â 13.2% a 12.9% yn y drefn honno yn Sir y Fflint a Wrecsam.

**De-orllewin a Chanolbarth Cymru:** Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 23.9% o boblogaeth De Orllewin a Chanolbarth Cymru yn gallu siarad Cymraeg. Yng Ngheredigion roedd y nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg â 47.3% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.

**De-ddwyrain Cymru:** Mae'r ardaloedd yr ydym yn cyflenwi hyfforddiant ynddynt yn Ne-ddwyrain Cymru ymhlith yr ardaloedd hynny lle ceir y lefel isaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Yn ôl cyfrifiad 2011, dim ond 10.6% o boblogaeth De Ddwyrain Cymru oedd yn gallu siarad Cymraeg. Dim ond 11.5% o boblogaeth Blaenau Gwent oedd ag un neu fwy o sgiliau'r iaith Gymraeg, a dim ond 13 - 14% oedd y ganran yn achos poblogaethau Casnewydd, Blaenau Gwent a Sir Fynwy.



**Cymru Gyfan** - Yn ôl cyfrifiad 2011 mae yna tua 562,000 (19% o'r boblogaeth) o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Er y bu gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, un agwedd gadarnhaol yw bod 40.3% o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru rhwng 5 a 15 oed, yn ôl cyfrifiad 2011.

#### **4.5 Darpariaeth Ddwyeithog**

O gyfanswm dysgwyr y Cwmni a oedd yn dysgu yn ystod 2017/18, roedd 10% (194 o ddysgwyr) yn siaradwyr Cymraeg rhugl, roedd 21.1% (411 o ddysgwyr) yn siarad Cymraeg – heb fod yn rhugl. Byddai'r Cwmni'n annog siaradwyr Cymraeg i gwblhau eu rhaglen ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, neu o leiaf agweddau ar y rhaglen.

Mae darpariaeth ddwyieithog ar gael ym mhob un o'r rhaglenni dysgu yn y gwaith rydym yn eu darparu yng Nghymru. Mae'r Cwmni'n ymdrechu i gael o leiaf un Cydlynnydd Hyfforddiant sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ym mhob un o'r meysydd galwedigaethol y mae'n eu cynnig. Penodir mentor sy'n siarad Cymraeg ar gyfer Cydlynwyr Hyfforddiant sy'n siarad Saesneg i sicrhau bod dysgwyr Cymraeg yn cael cyfle cyfartal i ddefnyddio a gwella'u sgiliau iaith Gymraeg.

#### **4.4 Partneriaethau**

Mae'r Cwmni dros nifer o flynyddoedd wedi datblygu perthnasoedd gweithio effeithiol â gwahanol sefydliadau o fewn y broses ddysgu i helpu i ddarparu cyfleoedd dysgu dwyieithog cydlynol sy'n diwallu anghenion dysgwyr.

Mae staff yn gweithio'n agos â Sgiliaith a Menter Maldwyn, Trosi Tanant Translations a Melanie Davies, sef y cwmni rydym yn ei ddefnyddio wrth gyfieithu a datblygu adnoddau dysgu dwyieithog, dogfennau cynefino ac asesu dysgwyr a chwestiynau gwybodaeth graidd ar gyfer rhaglenni prentisiaeth dethol.

Mae'r Cwmni wedi datblygu partneriaethau effeithiol â chyflogwyr ym mhob un o'i feysydd gweithredu, gan gyflenwi rhaglenni dysgu ar safleoedd cyflogwyr, cynnig cyngor a chymorth, a threfnu fforymau cyflogwyr a dysgwyr i drafod a gwneud argymhellion ar gyfer amrywiaeth o faterion, gan gynnwys dwyieithrwydd.

Mae'r Cwmni hefyd wedi datblygu cysylltiadau â'r sefydliadau a ganlyn wrth ddatblygu ei ddarpariaeth Gymraeg:

- APADGOS/LLCC
- Cyngorau Sgiliau Sector
- Cyrff Dyfarnu
- Cwmnïau Gyrfaoedd
- Twristiaeth Canolbarth Cymru
- Sgiliau Cymru

## **5. CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU**

### **5.1 Polisiau a Mentrau Newydd**

- Wrth gynllunio, ffurfio ac adolygu polisiau, gweithdrefnau neu fentrau newydd, rhoddir ystyriaeth i'w heffaith ieithyddol.
- Mae'r Cwmni'n sicrhau y bydd polisiau a mentrau newydd yn hybu ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg lle bynnag bo'n bosib, ac yn symud yn agosach at weithredu egwyddor cydraddoldeb llwyr ar bob cyfle.
- Mae'r Cwmni'n sicrhau bod unrhyw bolisiau a mentrau newydd yn gyson â'r Cynllun hwn ac nad ydynt yn ei danseilio neu'n tanseilio Cynllun/Polisi Iaith Gymraeg darparwyr eraill.
- Bydd pob aelod o staff a chynghorydd sydd a wnelo â ffurfio polisiau, gweithdrefnau a mentrau newydd yn derbyn copi o Gynllun Iaith Gymraeg y Cwmni, a sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o ofynion ieithyddol polisiau newydd.
- Bydd y Cwmni'n ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw newidiadau a allai effeithio ar y Cynllun hwn, ac ni fydd yn newid y Cynllun heb gytundeb y Comisiynydd.

### **5.2 Safonau Ansawdd**

- Mae'r Cwmni wedi ymrwymo i gyflenwi gwasanaeth o'r un safon uchel yn Gymraeg ac yn Saesneg yng ngwaith y Cwmni drwyddo draw. Bydd yna ddatganiad ynglŷn â'r egwyddor hon mewn dogfennau allweddol, fel yr Adroddiad Hunanasesu, y Cynllun Datblygu Ansawdd a'r Datganiad Cenhadaeth.

- Wrth asesu a mesur safonau ac effeithiolrwydd ei wasanaethau yn Gymraeg, bydd y Cwmni'n defnyddio'r un dangosyddion perfformiad yn union â'r rheiny a ddefnyddir i fesur ei wasanaethau yn Saesneg.
- Bydd y Cwmni'n sicrhau bod safon gwasanaethau a gynigir yn Gymraeg, ym mhob maes, yn gyson trwy ei brosesau hunanasesu blynyddol a gwerthuso mewnol parhaus llym.

### 5.3 Darparu Gwasanaethau

- Fel darparwr hyfforddiant yng Nghymru, rydym yn hybu dwyieithrwydd ymhlith ein staff, ein dysgwyr, ein hisgontractwyr a'n rhanddeiliaid, ac yn mynd ati i hybu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar hyfforddi ac asesu, ac yn darparu cyfleoedd i'n staff a'n dysgwyr ddefnyddio a gwella'u sgiliau dwyieithog.
- Rydym o'r farn bod cael digon o hyfforddwyr/aseswyr sy'n siarad Cymraeg, ac sy'n hyderus o ran eu gallu dwyieithog i fynd ati i annog a chefnogi dysgwyr a chyflogwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y broses ddysgu, yn allweddol i hybu dwyieithrwydd yn llwyddiannus, ac wrth estyn gwir gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio a gwella'u sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle.
- Anogir staff sy'n siarad Cymraeg i wella'u sgiliau iaith Gymraeg, a staff nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu'r iaith. Trefnir cyrsiau ar gyfer staff sy'n dysgu Cymraeg, a hyfforddiant gloywi ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â **Sgiliaith** i ddarparu rhaglenni dysgu i aseswyr/tiwtoriaid sy'n siarad Cymraeg, wedi'u cynllunio i wella'u sgiliau llafar ac ysgrifenedig.
- Ar hyn o bryd, mae gennym o leiaf un Cydlynedd Hyfforddiant/aseswr dwyieithog ym mhob maes galwedigaethol yr ydym yn ei ddarparu ac ym mhob tîm hyfforddwyr/aseswyr.
- Mae staff dwyieithog yn cyfieithu dogfennau mewnol, gan gynnwys deunyddiau dysgu a dogfennau asesu. Defnyddir gwasanaethau cyfieithu proffesiynol yn eang ar gyfer gwaith mawr neu ar gyfer gwaith sy'n galw am ddull mwy arbenigol o weithredu. Mae **Cysill** a **Cysgeir** hefyd ar gael i staff a dysgwyr.

- Rydym wedi ymrwymo i roi gwybod i ddysgwyr pan gysylltir â nhw gyntaf am y gwahanol gydrannau o fframweithiau/rhaglenni y mae modd eu cyflenwi yn Gymraeg.
- Hybir manteision dysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle i ddysgwyr yn ystod y cyfnod cynefino ar gyfer eu rhaglen, ac wedi hynny trwy gydol y rhaglen er mwyn eu hannog i ddilyn eu rhaglen, neu ran ohoni, yn ddwyieithog lle bo'n bosib.
- Yn ystod y Cyfnod Cynefino Dysgwyr, mae'r asesiadau Sgiliau Sylfaenol cychwynnol a sgiliau Cyfathrebu a Rhifedd ar gael yn y ddwy iaith.
- Rydym yn dynodi ac yn cofnodi'r iaith y mae'n well gan ddysgwyr ddysgu ynddi yn ystod yr asesiad cychwynnol a, lle bo'n bosib, yn darparu'r addysg yn unol â'r hyn sy'n well ganddynt. Lle bo'n bosib, bydd aseswyr/tiwtoriaid sy'n siarad Cymraeg yn cael eu haseinio i ddysgwyr ar gyfer eu rhaglen ddysgu gyfan neu ran ohoni. Lle nad yw hyn yn bosib oherwydd bod nifer yr aseswyr Cymraeg sydd ar gael yn gyfyngedig a/neu oherwydd cyfyngiadau daearyddol, gellir mabwysiadu un neu fwy o'r opsiynau a ganlyn fel bo'n briodol:
  - (i) Trosglwyddo dysgwyr i aseswyr sy'n siarad Cymraeg.
  - (ii) Sicrhau bod aseswyr sy'n siarad Cymraeg mewn un gweithle ar gael i gynorthwyo mewn gweithle arall yn ôl y galw.
  - (iii) Rhannu gwasanaethau siaradwyr Cymraeg â darparwyr dysgu eraill sy'n darparu'r un gwasanaeth, neu brynu'r gwasanaeth oddi wrthynt.
  - (iv) Prynu gwasanaethau aseswyr/tiwtoriaid sesiynol.
  - (v) Trosglwyddo'r dysgwr i ddarparwr arall sy'n cynnig yr un gwasanaeth os mai dyna yw dymuniad y dysgwr.
- Mae'r Cwmni'n mynd ati i annog pob dysgwr sy'n siarad Cymraeg i gwblhau o leiaf un gweithgaredd dysgu mewn fframwaith/rhaglen yn Gymraeg oherwydd bod pecynnau cynefino i ddechreuwr ar gael yn y ddwy iaith.

**Lle mae dysgwr yn nodi bod yn well ganddo ddefnyddio'r Gymraeg, gallwn ar hyn o bryd ddiwallu hyn trwy ddarparu:**

- (i) Ffurflenni Adolygu Dwyieithog (PARS)
- (ii) Adnoddau dysgu, pecynnau gwybodaeth ac aseiniadau yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer y meysydd galwedigaethol rydym yn eu darparu.
- (iii) Sgiliau Hanfodol yn y Gymraeg a rhai cymwysterau FfCCh

- Dadansoddir safonau Saesneg a'u hesbonio ar lafar yn Gymraeg yn unol â'r hyn sy'n well gan y dysgwr.

**Rydym yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr:**

- (i) Dderbyn asesiad Cymraeg ysgrifenedig a/neu lafar
  - (ii) Derbyn adolygiadau cynnydd yn Gymraeg yn ysgrifenedig a/neu ar lafar
  - (iii) Ateb cwestiynau gwybodaeth neu gwestiynau eraill yn Gymraeg ar lafar
  - (iv) Cwblhau aseiniadau cwrs cyfan neu ran ohonynt yn Gymraeg
  - (v) Cael eu gwaith wedi'i ddilysu'n fewnol yn Gymraeg
  - (vi) Ymateb yn Gymraeg neu yn Saesneg mewn sesiynau grŵp
  - (vii) Sefyll profion allanol yn Gymraeg ar gais y dysgwyr lle bo'r cyfle i wneud hyn ar gael, a chael tiwtorial wyneb yn wyneb, adborth, trafodaeth a/neu gyfarwyddyd yn Gymraeg
- Mae'r Cwmni wedi ymrwmo i sicrhau bod cymorth a chyfarwyddyd ar gael i ddysgwyr yn Gymraeg neu yn Saesneg, gan gynnwys cyngor gyrfa, cwnsela personol a gwybodaeth am faterion fel iechyd, cyngor ariannol, cyffuriau a rhyw.
  - Gwneir ymdrechion i sicrhau bod unrhyw siaradwr allanol a wahoddir i wneud cyflwyniad i ddysgwyr yn gallu siarad Cymraeg.
  - Mae'r Cwmni wedi ymrwmo i barhau i gryfhau ac estyn ei ddarpariaeth Gymraeg i bob maes galwedigaethol ac ardal ddaearyddol. Gall hyn fod ar gyfer rhaglenni cyfan neu rannol neu elfennau gwybodaeth neu asesiad rhaglenni. Rydym wedi ymrwmo i symud yr agenda ddwyieithrwydd ymlaen a gweithio ar negyddu'r cyfyngiadau oherwydd argaeledd aseswyr/tiwtoriaid â'r sgiliau galwedigaethol a dwyieithog cyfun, argaeledd adnoddau dysgu Cymraeg a dwyieithog, a chyndynrwydd prentisiaid sy'n siarad Cymraeg i ymgysylltu â dwyieithrwydd yn llwyr.
  - Mae'r Cwmni wedi mabwysiadu diffiniadau Dysgu yn y Gwaith o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Ystyrir bod cwrs yn Gyfwng-Cymraeg neu'n ddwyieithog os yw'n bodloni'r canllawiau fel y nodir yn Llawlyfr LLWR. Y diffiniad hwn y bydd y Cwmni'n ei ddefnyddio wrth fesur ei ddarpariaeth bresennol a'r hyn a ddarperir yn y dyfodol.

## **6. DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG**

### **6.1 Gohebiaeth Ysgrifenedig**

- 6.1.1 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd papur pennawd swyddogol Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cynnwys datganiad yn y ddwy iaith a fydd yn esbonio bod croeso i ohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
- 6.1.2 Bydd y targedau amser a osodir (sef 5 diwrnod gwaith) wrth ateb llythyrau Cymraeg yr un â'r targedau amser a osodir wrth ateb llythyrau Saesneg. Ni fydd gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn arwain at oedi.
- 6.1.3 Bydd pob llythyr a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ateb yn y Gymraeg wedi'i lofnodi.
- 6.1.4 Bydd pob gohebiaeth, wedi sgwrs ffôn, sgwrs wyneb-yn-wyneb neu gyfarfod lle y canfyddir mai'r Gymraeg yw dewis iaith yr unigolyn, er efallai nad oedd y drafodaeth wedi'i chynnal yn y Gymraeg, yn Gymraeg.
- 6.1.5 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn dechrau pob gohebiaeth ag aelod o'r cyhoedd yn ei ddewis iaith lle bo'n hysbys.
- Os nad yw dewis iaith y derbynnydd yn hysbys, yna cychwynnir yr ohebiaeth yn ddwyieithog.
  - Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn casglu cronfa ddata o'r rheiny sy'n dymuno derbyn gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 6.1.6 Bydd pob cylchlythyr a llythyr safonol sydd i'w ddsbarthu gan Gwmni Hyfforddiant Cambrian i'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- 6.1.7 Caiff trefniadau i gyfieithu gohebiaeth eu gwneud yn ôl yr angen, er mwyn ymateb i ohebiaeth yn brydlon ac yn yr iaith wreiddiol. Bydd staff yn derbyn cyfarwyddyd ynghylch sut i gyflawni hyn.
- 6.1.8 Bydd aelod staff penodol o fewn Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn gyfrifol am gyfieithu deunydd. Os nad oes gan y Cwmni aelod enwebedig o staff i gyfieithu deunydd, defnyddir cyfieithydd allanol cymeradwy a fydd wedyn yn cytuno â'r targedau amser penodol.

### **6.2 Gohebiaeth Electronig**

- 6.2.1 Caiff yr egwyddorion a amlinellir yn adran 6.1 eu gweithredu wrth gyfathrebu'n electronig.

6.2.2 Pan fo mathau newydd o gyfathrebu a dulliau storio'n cael eu gosod ar gyfrifiaduron Cwmni Hyfforddiant Cambrian, bydd gallu meddalwedd i ddelio â mwy nag un iaith yn ffactor i'w ystyried wrth brynu meddalwedd newydd, yn enwedig os bwriedir i systemau o'r fath ddarparu allbwn/gwasanaeth dwyieithog.

### **6.3 Galwadau Ffôn**

- 6.3.1 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn darparu gwasanaeth ateb ffôn a fydd yn cyfarch y galwr yn ddwyieithog ac yn croesawu ymholiadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd y rheiny o fewn Cwmni Hyfforddiant Cambrian nad ydynt yn medru'r Gymraeg yn derbyn cyfarwyddyd ar sut i ddelio â galwadau ffôn Cymraeg (e.e. darparu rhestr fewnol o'r staff Cymraeg sy'n medru delio â galwadau ffôn Cymraeg). Ond os yw aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg, ac os nad yw'r staff Cymraeg perthnasol ar gael, caiff yr unigolyn yr opsiynau a ganlyn: cynnig cael rhywun i'w ffonio yn ôl o fewn cyfnod penodol; cyflwyno'i ymholiad ar ffurf ysgrifenedig yn Gymraeg er mwyn cael ateb iddo yn Gymraeg; esbonio'r ymholiad yn llawn yn Saesneg a chael ateb iddo yn Gymraeg; neu barhau â'r sgwrs yn Saesneg. Bydd staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu nodi ar Siart Cyfundrefnol y Cwmni (Atodiad 1).
- 6.3.2 Bydd hi'n ddyletswydd ar bawb sy'n ateb y ffôn ar ran Cwmni Hyfforddiant Cambrian i ofalu na wna i'r rhai sy'n ffonio deimlo'u bod yn niwsans neu'n peri anghyfleustra oherwydd eu bod yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg.
- 6.3.3 Bydd yr holl gyfarwyddyd a negeseuon ateb yn cael eu recordio'n ddwyieithog.
- 6.3.4 Bydd y targed amser (sef 5 diwrnod gwaith) yr un fath wrth ymateb i ymholiadau Cymraeg dros y ffôn ag ydyw wrth ymateb i ymholiadau Saesneg dros y ffôn.

### **6.4 Cyfarfodydd Cyhoeddus**

- 6.4.1 Oherwydd y bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru, croesewir cyfraniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Caiff hyn ei ddatgan ar yr holl hysbysiadau a fydd yn hysbysebu'r cyfarfod a rhoddir gwybod i'r rheiny sy'n mynychu am y dewis iaith ar ddechrau pob cyfarfod hefyd.
- 6.4.2 Yr unig eithriad i'r drefn uchod fydd cyfarfodydd y gwyddys ymlaen llaw na fydd angen cyfieithydd ynddynt, un ai:
- (a) oherwydd bod pawb a fydd yn bresennol yn deall Cymraeg
  - (b) oherwydd bod pawb a fydd yn bresennol yn ddi-Gymraeg

(c) oherwydd y gwyddys mai Saesneg yw dewis iaith pawb a fydd yn bresennol

- 6.4.3 Bydd yr holl lenyddiaeth (gwahoddiad, gwŷs, hysbyseb) a fydd yn hysbysebu'r cyfarfod yn ddwyieithog.
- 6.4.4 Wrth hysbysebu unrhyw gyfarfod, bydd yr holl lenyddiaeth yn cynnwys troednodyn yn datgan bod croeso i'r rhai a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd gofyn iddynt hefyd roi gwybod i'r Cwmni ymlaen llaw ba iaith y dymunant ei defnyddio yn y cyfarfod, gan y bydd y trefnydd yna'n penderfynu a ddylid trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ai peidio.
- 6.4.5 Os nad yw'n hysbys ymlaen llaw bwy a ddaw i'r cyfarfod ac a fydd unrhyw un am siarad Cymraeg ynddo ai peidio, bydd trefnydd y cyfarfod yn penderfynu a ddylid trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ai peidio. Bydd y penderfyniad hwnnw'n seiliedig ar natur y cyfarfod, ei leoliad daearyddol, pwy fydd y gynulleidfa debygol a'r profiad o gyfarfodydd blaenorol cyffelyb. Os oes gwir ansicrwydd o hyd, yna penderfynir o blaid trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.
- 6.4.6 Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gaiff ei ddefnyddio yn y cyfarfod, fel taflenni, agenda neu asetynnau, yn ddwyieithog.
- 6.4.7 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn ymateb i unrhyw geisiadau am wybodaeth ynghylch cyfarfod yn newis iaith yr unigolyn.
- 6.4.8 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn sicrhau bod staff Cymraeg yn bresennol i groesawu a hwyluso defnyddio'r iaith ymhlith y rheiny sy'n mynychu ac yn cyfrannu yn y cyfarfodydd. Bydd y swyddogion hyn yn gwisgo bathodynau "Iaith Gwaith" er mwyn dangos eu bod yn rhugl eu Cymraeg neu eu bod wrthi'n dysgu Cymraeg.



## **6.5 Cyfarfodydd heb fod yn Gyhoeddus**

6.5.1 Mae croeso i unrhyw un sydd am gynnal cyfarfod preifat neu wyneb yn wyneb â Chwmni Hyfforddiant Cambrian wneud hynny yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

6.5.2 Caiff dewis iaith ei gynnig wrth drefnu cyfarfodydd, ac os mai'r Gymraeg yw'r cyfrwng a ddewisir, caiff trefniadau priodol eu gwneud â'r staff Cymraeg priodol.

6.5.3 Trwy gynnig dewis iaith, mae Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cydnabod:

- Y gall unigolion fynegi'u hunain a'u hanghenion yn fwy effeithiol yn eu dewis iaith.
- Bod galluogi unigolion i ddefnyddio'u dewis iaith yn fater o arfer da ac nid yn gonsesiwn.
- Y gall gwrthod yr hawl i unigolion ddefnyddio'u dewis iaith eu rhoi dan wir anfantais.

6.5.4 Mae'r mesurau uchod yn briodol i bob math o gyfarfodydd sydd heb fod yn gyhoeddus.

## **7. WYNEB CYHOEDDUS CWMNI HYFFORDDIANT CAMBRIAN**

### **7.1 Hunaniaeth Gorfforaethol**

7.1.1 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog.

7.1.2 Mae hyn yn cynnwys enw, cyfeiriad, logo, hunaniaeth weledol, slogan gorfforaethol ac unrhyw wybodaeth safonol arall sydd i'w defnyddio ar:

- i) Papur pennawd, papur ffacs, slipiau cyfarch, llofnodion e-bost
- ii) Yr holl ddeunydd marchnata/hysbysebu (h.y. cylchlythyrau, posteri, taflenni ac ati) sydd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru
- iii) Cardiau busnes, gwahoddiadau, bathodynnew adnabod ac ati.

### **7.2 Gwefan**

7.2.1 Mae gwefan Hyfforddiant Cambrian yn gwbl ddwyieithog

### **7.3 Arwyddion**

7.3.1 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn sicrhau bod arwyddion gwybodaeth newydd a rhai sy'n disodli hen rai o fewn ffiniau eiddo'r Cwmni yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys arwyddion dwyieithog yn y derbynfydd sy'n hysbysu'r cyhoedd o'u hawl i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg.

- 7.3.2 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.
- 7.3.3 Er mai arwyddion dwyieithog yw'r opsiwn cyntaf, bydd arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, o'u darparu, yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.
- 7.3.4 Bydd pob arwydd dwyieithog a fersiwn Gymraeg ar wahân yn cael eu prawf-ddarllen gan gyfieithydd cymeradwy er mwyn gwarantu cysondeb yn safon y Gymraeg.
- 7.3.5 Mae'r mesurau hyn yn briodol i arwyddion parhaol a thros dro.

#### **7.4 Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd i'w ddsbarthu i'r cyhoedd yng Nghymru**

- 7.4.1 Ar hyn o bryd, nid yw Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cyhoeddi'r holl gyhoeddiadau sydd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Fodd bynnag, ein nod yn y tymor canolig i hir yw sicrhau bod yr holl gyhoeddiadau a ddsberthir i'r cyhoedd yng Nghymru ar ffurf un ddogfen ac yn ddwyieithog. Bydd y fersiynau'n cael eu hargraffu gefn wrth gefn er mwyn hwyluso ddsbarthu, croesgyfeirio a chynnig dewis iaith.
- 7.4.2 Pan gyhoeddir dogfen â phris arni ar ffurf ddwyieithog, ni fydd ei phris yn fwy nag y byddai ar gyfer fersiwn uniaith o'r ddogfen honno.
- 7.4.3 Er mai cyhoeddiadau dwyieithog yw'r opsiwn cyntaf, pan fydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, byddant yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd ac yn cael eu ddsbarthu â'i gilydd, a bydd y ddwy fersiwn yr un mor hawdd eu cael.
- 7.4.4 Bydd pob fersiwn ar wahân yn cynnwys neges bod y cyhoeddiad hefyd ar gael yn yr iaith amgen.
- 7.4.5 Ni fydd pris fersiwn Gymraeg dogfen yn fwy na phris y fersiwn Saesneg.
- 7.4.6 Rhoddir canllawiau (e.e. *Canllawiau Dylunio Dwyieithog*) ar gyfer delio â chyhoeddiadau dwyieithog i'r holl staff, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwr.
- 7.4.7 Bydd cyfieithydd cymeradwy'n prawf-ddarllen yr holl gyhoeddiadau dwyieithog a rhai lle ceir fersiwn Gymraeg ar wahân er mwyn sicrhau bod safon y Gymraeg yn gyson.

## **7.5 Ffurflenni a Deunydd Esboniadol Cysylltiedig**

7.5.1 Ar hyn o bryd, nid yw Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cyhoeddi ei holl ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Fodd bynnag, ein nod yn y tymor canolig i hir yw sicrhau bod yr holl gyhoeddiadau a ddsberthir i'r cyhoedd yng Nghymru ar ffurf un ddogfen ac yn ddwyieithog. Bydd y fersiynau'n cael eu hargraffu cefn wrth gefn er mwyn hwyluso dosbarthu, croesgyfeirio a chynnig dewis iaith.

7.5.2 Bydd yr holl gyhoeddiadau uchod yn cydymffurfio ag ymrwymadau 7.4.2. i 7.4.7.

## **7.6 Datganiadau i'r Wasg**

7.6.1 Nod y Cwmni yn y tymor canolig i hir yw y bydd pob hysbyseb a datganiad y bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn eu cyhoeddi yn y wasg neu'r cyfryngau yng Nghymru'n gwbl ddwyieithog.

7.6.2 Anfonir yr holl ddatganiadau a hysbysiadau i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru yn Saesneg i'r cyfryngau hynny y gwyddwn eu bod yn uniaith Saesneg, ac yn Gymraeg i'r cyfryngau hynny y gwyddwn eu bod yn uniaith Gymraeg.

7.6.3 Bydd y canlynol yn gyfrifol am hwyluso'r trefniadau uchod:

**Elen Rees**

**Cyfarwyddwr Cyllid a Gweinyddiaeth**

**Cwmni Hyfforddiant Cambrian**

**Tŷ Cambrian**

**Uned 10 Parc Busnes Clawdd Offa**

**Ffordd Fisher**

**Y Trallwng**

**Powys**

**SY21 8JF**

## **7.7 Gweithgareddau Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd**

7.7.1 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cynnal gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd yng Nghymru yn ddwyieithog, a hynny mewn modd sy'n trin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal. Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cydymffurfio â'r mesurau a amlinellir yn y Cynllun hwn (o dan adran 7.4) yng nghydestun cyhoeddiadau dwyieithog.

7.7.2 Bydd y canlynol yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog:

- Yr holl lenyddiaeth farchnata ar gyfer y cyhoedd
- Arolygon a deunydd marchnata "trwy'r post"
- Hysbysebion yn y wasg / cyfryngau

- Arolygon cyhoeddus
- Ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol
- Stondinau gwybodaeth ac arddangosfeydd
- Hysbysebion ar bosteri

7.7.3 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn sicrhau bod staff Cymraeg yn bresennol i groesawu a hwyluso defnyddio'r iaith mewn gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd. Bydd y swyddogion hyn yn gwisgo bathodynau "Iaith Gwaith" er mwyn dangos eu bod yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg neu eu bod wrthi'n dysgu Cymraeg.

## **7.8 Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff**

7.8.1 Nod Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn y tymor canolig i hir yw sicrhau bod yr holl hysbysiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog â'r Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd; boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu fel arall.

7.8.2 Bydd y canlynol yn eithriadau i'r uchod

- Hysbysiadau cyhoeddus mewn cyhoeddiadau Cymraeg. Bydd y rhain yn ymddangos yn Gymraeg yn unig.
- Hysbysiadau cyhoeddus mewn cyhoeddiadau â chylchrediad trwy'r D.U. neu'r tu hwnt. Bydd y rhain yn ymddangos yn Saesneg yn unig.

7.8.3 Wrth baratoi a chyhoeddi hysbysebion i recriwtio staff yng Nghymru, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn dilyn y drefn a ganlyn:

- (a) Bydd hysbysebion am swyddi y mae medru'r Gymraeg yn *hanfodol* ar eu cyfer yn ymddangos yn;
  - yn Gymraeg un unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg
  - yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Saesneg â chylchrediad yng Nghymru yn bennaf, ond â brawddeg esboniadol Saesneg ar waelod yr hysbyseb
- (b) Bydd hysbysebion am swyddi y mae medru'r Gymraeg yn *ddymunol* ar eu cyfer yn cael eu cyhoeddi;
  - yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg â chylchrediad yng Nghymru yn bennaf
  - yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau â chylchrediad trwy'r D.U. neu'r tu hwnt
  - yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg

- (c) Bydd hysbysebion am swyddi nad yw unrhyw ofyniad ieithyddol wedi'i nodi fel rhan o Strategaeth Sgiliau Ieithyddol Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cael eu cyhoeddi:
- yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg â chylchrediad yng Nghymru yn bennaf
  - yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg
  - yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau â chylchrediad trwy'r D.U. neu'r tu hwnt 8.

## **8. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN**

### **8.1 Staff**

- 8.1.1 Er mwyn sicrhau dros gyfnod o amser bod Cwmni Hyfforddiant Cymru yn gallu cyflenwi ei wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg i safon uchel, yn effeithlon ac effeithiol, bydd yn mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol fel rhan o'i brosesau cynllunio adnoddau dynol. Bydd y Strategaeth hon yn galluogi Cwmni Hyfforddiant Cambrian i gael trosolwg o'i adnoddau a'i anghenion ieithyddol, gan gydlyn hyfforddiant a gweithgareddau recriwtio i hwyluso amcanion y Cynllun. Bydd y mesurau isod yn rhan o'r Strategaeth honno.
- 8.1.2 Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad uchod, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cynnal archwiliad o'i wasanaethau, ei ddarpariaethau a'i staff er mwyn dynodi'n wrthrychol:
- Pa weithleoedd neu sefyllfaoedd gwasanaethu sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru, a natur y cyswllt hwnnw
  - Pa sgiliau dwyieithog y mae'r staff presennol yn meddu arnynt ac i ba raddau y mae gan y staff ddiddordeb mewn gwella'u sgiliau.
- 8.1.3 Ar ôl cynnal a dadansoddi'r arolwg uchod, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn dynodi'r swyddi hynny y mae medru'r Gymraeg ar eu cyfer yn hanfodol, yn ddymunadwy, neu'n ddiangen. Yna caiff swydd-ddisgrifiadau eu llunio.
- 8.1.4 Bydd pob swydd newydd a phob un o'r swyddi presennol a ddaw'n wag yn cael eu hystyried yng ngoleuni Strategaeth Sgiliau Ieithyddol y Cynllun hwn. Wrth wneud hynny, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn ymwybodol o'r angen i fanteisio ar bob cyfle i unioni unrhyw ddiffygion yn y sgiliau iaith Gymraeg a fydd yn effeithio ar ddarparu gwasanaeth Cymraeg y Cwmni.
- 8.1.5 Wrth ymrwymo i fonitro gweithredu'r Cynllun, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cymryd camau cadarnhaol i adfer y sefyllfa os bydd nifer y siaradwyr Cymraeg mewn swyddi sy'n gysylltiedig â'r Cynllun yn dechrau lleihau.

## **8.2 Dysgu Cymraeg**

- 8.2.1 Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg i wahanol raddau ac mewn gwahanol sefyllfaoedd gwasanaethu yn hanfodol i lwyddiant y Cynllun hwn. Mae Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cydnabod bod y gallu i ddeall a siarad Cymraeg yn y gweithle o ddydd i ddydd yn sgîl werthfawr sy'n medru cynorthwyo staff i ddarparu gwasanaeth cyflawn i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.
- 8.2.2 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cefnogi gweithredu'r Cynllun hwn trwy annog a chefnogi'r aelodau staff hynny sydd am ddysgu Cymraeg neu am loywi'u Cymraeg.
- 8.2.3 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn trefnu rhaglenni dysgu a hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar weithleoedd a swyddi sy'n bwysig i weithredu'r Cynllun. Bydd cyrsiau o'r fath ar gael i'r rheiny sy'n dechrau dysgu Cymraeg ac i'r rheiny sy'n dymuno gwella eu medrusrwydd llafar ac ysgrifenedig yn yr iaith a bydd y Cwmni'n talu unrhyw gostau.
- 8.2.4 Er yn cynnig gwasanaeth dwyieithog ar hyn o bryd, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cynnal ac yn datblygu'r gwasanaeth hwn trwy bennu adnoddau cyllidol ar gyfer y rheiny sy'n dysgu Cymraeg, a thrwy ddarparu geiriaduron a deunydd cyfeirio arall.

## **8.3 Recriwtio**

- 8.3.1 Wrth recriwtio staff, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod croeso i siaradwyr Cymraeg ymuno â'r gweithlu mewn unrhyw swydd wag sy'n codi, yn yr hysbysiadau mewn papurau newydd ac ar y Wefan, ac yna yn ei swydd-ddisgrifiadau.
- 8.3.2 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian wedyn yn ceisio sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg â'r sgiliau priodol ar gael i hwyluso gweithredu'r Cynllun. Bydd pob hysbyseb recriwtio ar gyfer pob swydd sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg, ynghyd â'r swydd-ddisgrifiad neu'r manylion perthnasol, yn cael eu geirio mewn modd sy'n nodi gofynion ieithyddol y swydd yn eglur, yn unol â mesurau 8.1.3. ac 8.1.4. uchod.
- 8.3.3 Ar adegau, lle ceir anhawster wrth recriwtio staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol, efallai y bydd angen penodi rhywun nad yw'n siarad Cymraeg i swydd lle ystyrir bod y gallu

i siarad Cymraeg yn hanfodol. Fodd bynnag, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn hysbysebu ac yn cynnig swyddi o'r fath ar y ddealltwriaeth y bydd angen i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg ddysgu'r iaith fel amod o gyflogaeth a chyrraedd lefel foddhaol o ruglder o fewn cyfnod penodol rhesymol. Dylai'r lefel rhuglder a bennir fod yr hyn sydd ei angen i gyflawni dyletswyddau'r swydd, a dylid gwneud hynny'n glir i ymgeiswyr yn y manylion swydd, ochr yn ochr â chefnogaeth y sefydliad iddynt ddysgu'r iaith.

8.3.4 Wrth fwrw ymlaen â threfniadau o'r fath, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn rhoi'r amser a'r cymorth angenrheidiol i alluogi'r aelod o staff i fodloni'r amod gan sicrhau nad yw dan anfantais mewn modd arall oherwydd cadw at yr amod hwn. Mae angen cynllunio'r rhaglen ddysgu a'i harolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyflogwr a'r gweithiwr yn cadw at eu gair. Bydd hyn yn rhan o sicrhau bod gan Gwmni Hyfforddiant Cambrian nifer ddigonol o siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu i gyflenwi'r gwasanaethau a amlinellir yn y Cynllun hwn.

8.3.5 Trwy weithredu fel hyn, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn trin gallu ieithyddol yn yr un modd yn union ag unrhyw sgîl broffesiynol arall a all fod yn ofynnol i gyflawni cyfrifoldebau swydd ac a fydd yn destun adolygiad ymhen cyfnod penodedig. Gan hynny, rhaid parchu a gweithredu yn ôl yr amod cyflogaeth hwn yr un mor bendant â phob amod cyflogaeth arall, a bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn adolygu safon cyrhaeddiad o fewn cyfnod penodedig wedi'r penodiad.

8.3.6 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn sicrhau bod canran briodol o staff Cymraeg eu hiaith ymhlith y gweithlu er mwyn caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaeth ymarfer dewis iaith wrth gyfathrebu ar bob lefel.

#### **8.4 Hyfforddiant Galwedigaethol**

8.4.1 Mae Cwmni Hyfforddiant Cambrian wedi ymrwymo i ddatblygu gallu ei staff i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn iddynt ymgynefino â thrin a thrafod eu priod feysydd proffesiynol â'r cyhoedd yn Gymraeg.

8.4.2 Er mwyn gwireddu'r ymrwymiad uchod, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg cyn darparu hyfforddiant galwedigaethol er mwyn hwyluso gweithredu'r Cynllun.

8.4.3 O gofio natur gwaith Cwmni Hyfforddiant Cambrian, bydd yn rhoi'r ymrwymadau hyn ar waith trwy sgiliau sgwrsio, sgiliau siarad dros y ffôn a sgiliau prosesu geiriau.

## **9. TREFNIADAU GWEINYDDOL**

9.1 **Awdurdod:** Mae Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cadarnhau bod y Cynllun Iaith a'i holl fesurau wedi'u cymeradwyo ar y lefel uchaf ac yn cael awdurdod llawn y sefydliad, yn ganolog ac yn rhanbarthol, wrth eu rhoi ar waith.

9.2 **Cyfrifoldeb:** Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn enwebu'r Cyfarwyddwr Cyllid i fod yn bennaf gyfrifol am weithredu a monitro'r Cynllun.

9.3 Y Bwrdd Cyfarwyddwyr fydd yna'n gyfrifol am reoli'r Cynllun o ddydd i ddydd ac am integreiddio'r agweddau Cymraeg hynny ar y gwasanaeth i'w brosesau gweinyddol arferol, lle bynnag bo'n bosib.

9.4 **Cyfarwyddyd ac Arweiniad:** Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn sicrhau bod ei holl staff yn derbyn cyfarwyddyd ar y Cynllun a chynghor ar yr hyn a ddisgwylir oddi wrthynt.

9.5 Bydd y cyfieithwyr mewnol ac allanol a ddefnyddir gan Gwmni Hyfforddiant Cambrian yn rhai cymeradwy a chymwys i ddarparu gwasanaeth o safon uchel.

## **10. GWASANAETHAU A DDARPERIR AR RAN CWMNI HYFFORDDIANT CAMBRIAN GAN DRYDYDD PARTIÖN**

10.1 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn sicrhau y bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir â phartiön eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn gyson â thelerau'r Cynllun Iaith hwn. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw wasanaethau newydd neu wasanaethau sydd eisoes wedi'u contractio allan.

10.2 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian hefyd yn sicrhau trwy drefniadau contractio y gall, y bydd a bod yr asiant, y contractwr neu'r is-contractwr yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o Gynllun Cwmni Hyfforddiant Cambrian wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ei ran neu dan ei oruchwyliaeth.

10.3 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cydweithio â darparwyr i annog gweithredu eu Cynlluniau Iaith nhw eu hunain.



- 10.4 Bydd yn rhaid i'r trydydd parti gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â mesurau perthnasol Cynllun Cwmni Hyfforddiant Cambrian trwy lythyr.
- 10.5 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn darparu cyfarwyddyd ysgrifenedig i'r staff ar gyfer delio ag asiantau a chontractwyr, ac yn llunio prosesau er mwyn sicrhau bod staff yn glynu atynt.
- 10.6 Mae'r Cwmni'n mynd ati i annog Cynghorau Sgiliau Sector a Chyrff Dyfarnu i ddarparu deunydd safonau/cwricwlwm, asesu, gweinyddu a marchnata dwyieithog, ac i ddarparu Dilyswyr a Safonwyr Allanol Cymraeg eu hiaith.

## **11. PARTNERIAETHAU**

- 11.1 Mae Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, ac mae'r Cwmni'n gweithredu ar sawl lefel wrth gydweithio ag eraill:
- (i) Pan fo Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith.
  - (ii) Pan fo Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei harwain, bydd mewnbwn y Cwmni i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a bydd y cwmni'n annog y partïon eraill i gydymffurfio.
  - (iii) Pan fo Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiwm, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn gweithredu'n unol â'i Gynllun Iaith.
  - (iv) Pan fo Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn ymuno â phartneriaeth neu'n ffurfio un, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid ynglŷn â'u Cynlluniau Iaith, polisiâu iaith neu'r modd y maent yn bwriadu gweithredu'n ddwyieithog. Fel rhan o unrhyw bartneriaeth, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cynnig cyngor a chymorth i'r sefydliadau eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.

## **12. MONITRO GWEITHREDU'R CYNLLUN**

- 12.1 Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gweinyddiaeth a'r Cyfarwyddwr Ansawdd sydd wedi ei enwebu gan Gwmni Hyfforddiant Cymru yn bennaf gyfrifol am fonitro'r Cynllun ac am ei adolygu'n barhaus fel yr amlinellir yn adran 9.2.

12.2 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn strwythuro'r broses fonitro ac yn paratoi adroddiad cynnydd mewnol ar weithredu'r Cynllun, i'w gyflwyno i'r tîm rheoli. Cyflwynir yr adroddiad pob deuddeg mis.

12.3 Bydd Bwrdd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn derbyn adroddiad blynyddol ar gydymffurfiaeth a fydd yn ei alluogi i ateb y ddau gwestiwn sylfaenol a ganlyn:

- A yw Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cydymffurfio â'r Cynllun?
- Pa mor dda y mae'n gwneud hynny?

Wrth wneud hyn, bydd yr adroddiad yn delio â:

- Gwasanaeth Cymraeg gweinyddol Cwmni Hyfforddiant Cambrian
- Asesu themâu allweddol wrth weithredu'r Cynllun, gan gynnwys cyfraniad Cwmni Hyfforddiant Cambrian at ddatblygiad darpariaethau dwyieithog/Cymraeg
- Digonolrwydd hyfedredd ieithyddol gweithlu Cwmni Hyfforddiant Cambrian i weithredu gofynion y Cynllun Iaith.

12.4 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn ceisio barn siaradwyr Cymraeg o bryd i'w gilydd ynglŷn â chwmpas ac ansawdd gwasanaethau y mae'r sefydliad yn eu darparu.

12.5 Bydd monitro'r Cynllun yn weithgaredd strwythuredig a pharhaus, ac os bydd yr adroddiad yn canfod unrhyw wendidau, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn paratoi cynllun gweithredu, a fydd yn cywiro'r sefyllfa.

12.6 Bydd copi o'r adroddiad hwn yn cael ei anfon at Gomisiynydd y Gymraeg.

12.7 Yn ystod y drydedd flwyddyn o weithredu'r Cynllun, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn paratoi adroddiad gwerthuso cyflawn a fydd yn gwerthuso perfformiad wrth weithredu'r Cynllun dros y tair blynedd cyntaf. Er mwyn adolygu a diweddarau ei Gynllun Iaith a thrwy hynny dderbyn cymeradwyaeth ar gyfer yr ail gyfnod o weithredu, bydd yr adroddiad hwn yn:

- Darparu trosolwg a dadansoddiad thematig o berfformiad a chydymffurfiaeth â'r Cynllun dros y tair blynedd, o ran Cyflenwi Gwasanaeth a Rheoli'r Cynllun;
- Amlinellu blaenoriaethau'r Cwmni ar gyfer y tair blynedd dilynol, ynghyd ag amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r mesurau yn y Cynllun.

- Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cynnal arolwg o fodlonrwydd y cyhoedd er mwyn cael eu barn ynglŷn â chwmpas ac ansawdd ei wasanaethau dwyieithog.

12.8 Bydd yr adroddiad blynyddol a ddarperir gan Gwmni Hyfforddiant Cambrian i Gomisiynydd y Gymraeg mewn fformat y bydd y Comisiynydd wedi cytuno arno, a bydd yn disgrifio datblygiad gweithredu'r Cynllun yn erbyn yr amserlenni a'r safonau cymeradwy. Bydd hefyd yn dadansoddi nifer a natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau am welliannau sydd wedi eu derbyn oddi wrth y cyhoedd.

### **13. CYHOEDDI GWYBODAETH**

13.1 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn cyhoeddi'n rheolaidd wybodaeth sy'n cymharu perfformiad yn erbyn y safonau a'r targedau a nodir yn y Cynllun.

13.2 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn gwireddu'r ymrwymiad uchod trwy:

- Gyhoeddi adroddiad cyfnodol fel yr amlinellir yn 12.2. a 12.3.
- Rhoi'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol
- Gosod crynhoad o'r wybodaeth hon mewn dogfennau eraill lle caiff perfformiad ei arolygu.

13.3 Lle bo Cwmni Hyfforddiant Cambrian wedi methu â chyrraedd targedau, rhoddir rhesymau am hyn a nodir pryd a sut bydd yn cyrraedd targedau diwygiedig.

### **14. CYHOEDDUSRWYDD**

14.1 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn sicrhau cyhoeddusrwydd cychwynnol a pharhaus i'r Cynllun. Bydd hyn yn sicrhau, ar y naill law, y bydd y cyhoedd a phawb a ddaw i gysylltiad â Chwmni Hyfforddiant Cambrian yn ymwybodol o'i wasanaethau a'i ddarpariaethau yn Gymraeg ac, ar y llaw arall, bod staff cyflogedig, asiantau a chontractwyr Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn ymwybodol o'r anghenion a'r gofynion i weithredu'n unol â'r Cynllun hwn.

14.2 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w Gynllun laith trwy baratoi copïau ar gyfer cyrff/sefydliadau perthnasol, staff cyflogedig neu aelodau o'r cyhoedd ar eu cais. Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian hefyd yn paratoi cylchlythyrau a fydd yn esbonio prif elfennau'r Cynllun ac yn manylu ar natur, lleoliad

ac argaeledd y gwasanaethau dwyieithog. Bydd deunyddiau o'r fath hefyd ar gael i'r holl gyrff/sefydliadau perthnasol, staff cyflogedig ac aelodau o'r cyhoedd.

14.3 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiad ynghylch y Cynllun at:

**Elen Rees**  
**Cyfarwyddwr Cyllid a Gweinyddiaeth**  
**Cwmni Hyfforddiant Cambrian**  
**Tŷ Cambrian**  
**Uned 10 Parc Busnes Clawdd Offa**  
**Ffordd Fisher**  
**Y Trallwng**  
**Powys**  
**SY21 8JF**

## **15. CWYNION/AWGRYMIADAU A MANYLION CYSWLLT**

15.1 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn mabwysiadu gweithdrefn gwyno er mwyn delio â chwynion ynglŷn â'r Cynllun, a hynny fel rhan o weithdrefn gwyno gyffredinol y Cwmni.

15.2 Bydd Cwmni Hyfforddiant Cambrian yn croesawu ac yn cadw cofnod o unrhyw gwynion neu awgrymiadau am welliannau er mwyn gwella'r gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd. Ysgrifennwch atom yn:

**Elen Rees**  
**Cyfarwyddwr Cyllid a Gweinyddiaeth**  
**Cwmni Hyfforddiant Cambrian, Tŷ Cambrian**  
**Uned 10 Parc Busnes Clawdd Offa**  
**Ffordd Fisher**  
**Y Trallwng**  
**Powys**  
**SY21 8JF**

## **16. TARGEDAU**

16.1 Byddwn yn gosod targedau penodol ar gyfer gweithredu'r mesurau a amlinellir yn y Cynllun. Bydd y targedau hyn yn dynodi'r camau sydd eisoes wedi eu cymryd, y rheiny y gellir eu gweithredu ar unwaith, y rheiny a bennir yn dargedau tymor byr, targedau tymor canolig a thargedau tymor hir. Bydd yr holl dargedau o'r fath yn eglur, yn ddiamwys ac yn berthnasol.

## **17. AMSERLEN**

**Mae Hyfforddiant Cambrian yn adolygu ei ymrwymadau i'r cynllun hwn yn flynyddol.**

**Nodir yr holl gamau gweithredu ac amserlenni yn y Cynllun Gweithredu Cymraeg.**